------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 30 Tachwedd 2022

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Sganio'r gorwel ym maes gofal cymdeithasol: sesiwn dystiolaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

(09.30-10.45) (Tudalennau 1 - 25)

Gillian Baranski, Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru

Vicky Poole, Dirprwy Brif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Papur 1 - Tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru

## 3 Papur(au) i'w nodi

(10.45)

**3.1 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018**

(Tudalennau 26 - 27)

**3.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018**

(Tudalennau 28 - 29)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

(Tudalennau 30 - 32)

3.4 Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch argymhellion Pwyllgor y Bumed Senedd yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant

(Tudalennau 33 - 36)

3.5 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am Cadernid Meddwl

(Tudalennau 37 - 39)

3.6 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cynnydd a wnaed tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru

(Tudalen 40)

3.7 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cynnydd a wnaed tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru

(Tudalen 41)

3.8 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch y Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

(Tudalennau 42 - 43)

3.9 Llythyr gan Awdurdod Ystadegau'r DU ynghylch adroddiadau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau

(Tudalennau 44 - 45)

3.10 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

(Tudalennau 46 - 48)

## 4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) ac (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.45)

## 5 Sganio'r gorwel ym maes gofal cymdeithasol: trafod y dystiolaeth

(10.45–11.00)

## 6 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

(11.00–11.10) (Tudalennau 49 – 54)

Papur 2 – Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

## 7 Craffu ar waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru: trafod y llythyrau drafft

(11.10–11.20) (Tudalennau 55 – 62)

Papur 3 – Craffu ar waith Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## 8 Anghydraddoldebau iechyd meddwl – trafod yr adroddiad drafft

(11.20–12.15) (Tudalennau 63 – 162)

Papur 4 – Anghydraddoldebau iechyd meddwl: cyhoeddi'r adroddiad

Papur 5 – adroddiad drafft

Papur 6 – Grŵp cynghori ar-lein anghydraddoldebau iechyd meddwl: crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ymateb Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Tachwedd 2022**

Arolygiaeth Gofal **Cymru** Care Inspectorate **Wales**

1. Diolch am wahodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i gymryd rhan yn sesiwn sganio'r gorwel y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn ystyried materion allweddol sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

2. Er mwyn helpu i lywio'r hyn a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor, isod nodwn ym mha gyd-destun y mae AGC yn cofrestru, yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym wedi nodi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a'n gweithgarwch o fewn y sector.

**Rôl AGC**

3. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

4. Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Diogelir ein statws annibynnol gan Femorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Prif Arolygydd a'r unigolion perthnasol o blith Gweinidogion Cymru. Mae'r Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn ar gael ar wefan AGC: https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-07/210720-Memorandwm-Cyd-ddealltwriaeth-Gweinidogion-Cymru-cy.pdf.

5. Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau; yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan lywio gwelliannau iddynt; yn cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol; yn gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol ac yn ymateb i bryderon a gaiff eu codi ynghylch gwasanaethau gofal.

6. Mae AGC yn gyfrifol am reoleiddio'r canlynol:

   - **gwasanaethau oedolion**: cartrefi gofal i oedolion; gwasanaethau cymorth cartref; gwasanaethau lleoli oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd

   - **gwasanaethau plant**: cartrefi gofal i blant; gwasanaethau maethu; gwasanaethau mabwysiadu; gwasanaethau eirioli a gwasanaethau llety diogel

   - **gwasanaethau gofal plant a chwarae**: gwarchodwyr plant; meithrinfeydd; gofal dydd llawn; gofal dydd sesiynol; gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored

7. Rydym hefyd yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gwnawn hyn drwy gyfuniad o weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad. Yn ogystal, rydym yn arolygu gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol; ysgolion

preswyl; ysgolion arbennig preswyl (trefniadau llety am lai na 295 diwrnod); colegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed a Cafcass Cymru.

**Materion allweddol sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol**

8. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod anodd dros ben i lawer o bobl. Wrth i ni symud yn araf allan o'r pandemig, mae'n rhaid i ni dalu teyrnged i'r gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae ledled Cymru. Mae'r gweithwyr hyn yn parhau i ddangos sgiliau a dycnwch arbennig, gan weithio'n ddiflino wrth iddynt wynebu'r heriau niferus sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

9. Mae'r sefyllfa yn dal i fod yn heriol iawn i'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu. Mae pwysau presennol yn y system, sy'n cael eu dwysáu gan yr argyfwng costau byw, yn bygwth dadwneud y gwaith cadarnhaol yn ystod y pandemig pan oedd ymdeimlad gwirioneddol o asiantaethau'n dod ynghyd ac yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl.

10. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd AGC Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2021-2022. Er bod llawer i'w ddathlu, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bryderon parhaus, gan gynnwys:

    - Cynnydd digynsail yn y galw am ofal a chymorth sydd wedi arwain at gryn bwysau ar wasanaethau.

    - Mae'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol ymhell o fod yn ddigonol o hyd gan arwain at wasanaethau bregus, yn enwedig gwasanaethau cymorth cartref.

    - Diffyg lleoliadau gofal a chymorth addas i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n derbyn gofal.

11. Yr hyn rydym yn ei weld heddiw yw system iechyd a gofal sy'n orlawn, gyda llawer o arweinwyr gofal cymdeithasol yn ei disgrifio fel sefyllfa argyfyngus. Gwyddom fod llawer o bobl wedi gohirio ceisiadau am wasanaethau yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau i gefnogi pobl, y mae gan lawer ohonynt anghenion sy'n llawer mwy cymhleth. Rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau lleol yn gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu pan all pobl fod yn wynebu risg o niwed. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg gwasanaethau gofal, cymorth, a thriniaeth i ddiwallu anghenion pobl.

12. Mae staff yn y sector gofal cymdeithasol am ddarparu gofal da a diogel, ond maent yn cael trafferth gwneud hynny. Mae pwysau staffio ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn un o'r materion mwyaf arwyddocaol a godir gan ddarparwyr, ac mae recriwtio a chadw staff yn bryder penodol. Os nad eir i'r afael â hyn ar lefel genedlaethol, mae perygl na fydd awdurdodau lleol

a darparwyr gofal cymdeithasol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol a rheoleiddiol.

13. Mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru, mae gormod o bobl yn aros i'w hanghenion gael eu hasesu. Hyd yn oed pan fydd pobl yn cael eu hasesu, caiff llawer eu rhoi ar restr aros ar gyfer cymorth cartref a gwasanaethau eraill wedyn, megis therapi galwedigaethol a gwasanaethau therapiwtig. Rydym hefyd yn gweld darparwyr cymorth cartref yn rhoi'r cyfrifoldeb am ofal pobl yn ôl i awdurdodau lleol am nad oes ganddynt ddigon o staff i ddiwallu anghenion pobl. Yn ogystal, nid yw cynlluniau gofal a chymorth pobl yn cael eu hadolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Mae hyn yn golygu, pan fydd anghenion pobl yn newid a bod angen rhagor o ofal arnynt o bosibl, ni chaiff hyn ei ddarparu.

14. Mae'r holl bethau hyn yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar ofalwyr, teuluoedd a ffrindiau i lenwi'r bylchau. Mae angen rhagor o gymorth i ofalwyr di-dâl er mwyn eu galluogi i barhau yn eu rôl gofalu pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'n bwysig bod anghenion gofalwyr yn gallu cael eu hasesu a'u bod yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal o ran gofal yr aelod o'u teulu neu eu ffrind.

15. Rydym yn mynd yn fwyfwy pryderus fod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i fyw mewn cartref gofal dros dro er eu bod am ddychwelyd adref. Mae'n hanfodol bod hawliau pobl wrth wraidd pob proses benderfynu. Os na fydd dewis arall, mae'n bwysig bod pobl yn cael y cymorth cywir er mwyn sicrhau y gallant fod mor annibynnol â phosibl tra byddant yn byw yn y cartref gofal. Mae hyn yn golygu y dylai gwasanaethau ailalluogi 'mewngymorth' gael eu darparu neu y dylai staff gofal mewn cartrefi gofal gael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau ailalluogi ychwanegol.

16. Mewn cartrefi gofal i blant, er gwaethaf cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael, mae diffyg darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion emosiynol ac ymddygiadol mwyaf cymhleth o hyd. Mae hyn yn cynnwys diffyg darpariaeth cartref diogel i blant er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant.

17. Er ein bod yn deall effaith y pandemig ar bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, rydym yn gwybod llawer llai am brofiadau pobl ag anableddau dysgu. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn blaenoriaethu gwaith gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) er mwyn adolygu i ba raddau y mae anghenion gofal, cymorth a thriniaeth pobl ag anabledd dysgu yn cael eu diwallu.

18. Mae parhau i ddatblygu cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar i bobl yn hollbwysig. Arafodd y momentwm a gafwyd yn sgil rhoi Deddf 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016) ar waith, fel y gellid ei ddisgwyl, yn ystod y pandemig. Rydym yn bryderus nawr bod risg y bydd y pwysau ar adnoddau a chapasiti yn tanseilio datblygiad y dulliau a'r gwasanaethau hyn ymhellach.

19. Lle byddwn yn nodi canlyniadau gwael drwy ein gwaith sy'n tanseilio diogelwch a llesiant pobl, bydd hyn fel arfer yn gysylltiedig â methiannau o ran arweinyddiaeth. Gan ddysgu o'r gorffennol, ailddiffiniodd Deddf 2016 rôl Unigolion Cyfrifol, a'u cyfrifoldeb arwain o ran sicrhau bod gan wasanaethau ddiwylliant cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys hybu llesiant y staff sy'n gweithio yn eu gwasanaethau, ochr yn ochr â llesiant y bobl sy'n cael gofal a chymorth. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i wireddu dyheadau Deddf 2016 a sicrhau y gall Unigolion Cyfrifol gael gafael ar arweiniad priodol er mwyn cyflawni eu rôl.

20. Mae'r sector yn fregus ac yn wynebu llawer o heriau parhaus, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol. Dim ond drwy waith cynllunio a buddsoddi hirdymor y gellir datrys y problemau sy'n effeithio ar ofal pobl, gan fabwysiadu safbwynt system gyfan sy'n cydnabod y gydberthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r problemau mwyaf brys ac amlwg.

21. I sicrhau y gall pobl Cymru gael gafael ar y gwasanaethau gofal sydd eu hangen arnynt, mae'n rhaid i ni:

    - sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, â'r bobl sy'n gweithio yn y maes hwn, yn cael lleisio barn
    - sicrhau bod darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal mewn gofal
    - sicrhau bod gofalwyr yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal mewn gofal, a'u bod yn gallu cael gafael ar gymorth yn eu rhinwedd eu hunain
    - sicrhau newid sylweddol yn y ffordd rydym yn denu ac yn cadw pobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn cael yr un parch a thelerau ac amodau â'r rhai sy'n gweithio yn y GIG
    - ymgorffori gwersi o'r gorffennol – dysgu o Ymgyrch Jasmine;
    - parhau i gydgynhyrchu a chydweithio er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n parhau i gael eu rhoi ar waith.

22. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad strategol a gweithredol i ddarparu gwasanaethau di-dor i bobl sydd ag anghenion gofal cymdeithasol. Dylid integreiddio hyn ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol a gofal iechyd, neu'r sector addysg, lle bo modd, a dylid mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i weithio yn y ffordd hon. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl bwysig o ran sicrhau hyn.

23. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru, darparwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau yn y sector gofal. Rydym yn annog darparwyr a chomisiynwyr gofal cymdeithasol i gael trafodaethau cynnar â ni am fodelau gofal arloesol a sut y gellir eu cynllunio i gyd-fynd â'r fframwaith rheoleiddio.

24. Byddwn yn parhau i roi pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Chorff newydd Llais y Dinesydd er mwyn helpu i ddatblygu ei waith a sicrhau bod llais pobl yn cael ei glywed.

25. Byddwn hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau ein gweithgareddau arolygu a rheoleiddio. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein cyhoeddiadau (gan gynnwys ein hadroddiadau arolygu, adolygiadau cenedlaethol ac adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd) a thrwy chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith gyda'r cyhoedd a'n partneriaid ehangach.

26. Fel rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant, bydd AGC yn parhau i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mae llawer i'w wneud ond hefyd lawer i'w rannu, ei ddathlu a'i ddysgu o'r gwaith rhagorol a'r arferion da a welwn ledled Cymru bob dydd. Byddwn yn dod o hyd i staff tosturiol ac ymroddedig yn aml, sy'n benderfynol o ddarparu'r lefelau uchaf o ofal i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Yn ffodus, prin yw'r enghreifftiau o ofal gwael ond, pan fyddwn yn gweld gofal gwael, rydym yn gweithredu a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Eitem 3.1

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

26 Medi 2022

Annwyl Eluned

**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018**

Fel y gwyddoch, mae adran 21 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd ar weithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, ac mae adran 22 yn darparu ar gyfer diddymu darpariaethau isafbris yn awtomatig ar ddiwedd cyfnod o chwe blynedd oni bai bod rheoliadau'n cael eu gwneud i'r gwrthwyneb.

Er nad yw'r cyfnod o bum mlynedd yn dod i ben tan fis Mawrth 2025, byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am eich cynlluniau ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth, yn enwedig yn sgil yr ymchwil helaeth sy'n cael ei wneud gan Iechyd Cyhoeddus yr Alban i lywio'r gwaith o werthuso deddfwriaeth isafbris yr Alban. Byddai gennym ddiddordeb arbennig i glywed rhagor am y materion a ganlyn:

- Pwy fydd yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r gwerthusiad.
- Beth fydd y meysydd ffocws penodol. Er enghraifft, ar ôl i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd graffu ar y Bil, byddem yn croesawu cadarnhad y bydd y gwerthusiad yn edrych ar yr effaith ar yfed alcohol a'r niwed cysylltiedig; yr effaith ar gynhyrchwyr a manwerthwyr alcohol, ymddygiad amnewid (h.y. pobl yn amnewid alcohol am sylweddau eraill, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon), a'r effaith ar yr angen am wasanaethau cymorth a thriniaeth alcohol).

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 21 Tachwedd 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS,
Senedd Cymru,
Caerdydd,
CF99 1SN
E-bost:

14 Tachwedd 2022

Annwyl Russell George AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Medi 2022 i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Gofynnwyd imi ymateb gan fod y maes hwn yn rhan o gyfrifoldebau fy mhortffolio.

Ar 6 Hydref 2022 cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf ar isafbris uned ar gyfer alcohol a'r adolygiad dwy flynedd ar weithredu'r ddeddfwriaeth. Mae'r Datganiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd penodol o ffocws y bydd y gwerthusiad yn eu cynnwys a gellir ei weld drwy'r ddolen ganlynol: Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Dwy Flynedd o Weithredu Isafbris am Alcohol (6 Hydref 2022) | LLYW.CYMRU

Roeddech chi hefyd yn gofyn pwy oedd y contractwyr a oedd yn cynnal y gwerthusiadau. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

**Lot 1: Dadansoddiad o gyfraniadau** – Consortiwm Prifysgol Glyndŵr, Figure 8 Consultancy a Phrifysgol De Cymru, gyda Phrifysgol Glyndŵr yn arwain.

**Lot 2: Ymchwil i'r effaith ar fanwerthwyr** – NatCen Social Research

**Lot 3: Gwaith gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau** – Consortiwm Prifysgol Glyndŵr, Figure 8 Consultancy a Phrifysgol De Cymru, gyda Figure 8 Consultancy yn arwain.

**Lot 4: Asesiad o effaith cyflwyno isafbris am alcohol ar boblogaeth ehangach o yfwyr** – Consortiwm Prifysgol Glyndŵr, Figure 8 Consultancy a Phrifysgol De Cymru, gyda Phrifysgol De Cymru yn arwain.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

16 Tachwedd 2022

Annwyl Brif Weinidog

**Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

Rwy'n ysgrifennu atoch o ystyried eich cyfrifoldeb personol dros Raglen Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu'n fawr fod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 pwyllgorau cyn i ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal a chyn ei bod yn ofynnol i'r Senedd gytuno ar Benderfyniad Ariannol.

Rôl y Pwyllgor Cyllid yw ystyried goblygiadau ariannol Biliau ac mae ein hadroddiadau yn aml yn dod i'r casgliad ein bod yn fodlon â'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ochr yn ochr â Biliau'r Llywodraeth, yn amodol ar ymrwymiad gan y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth ariannol bellach yr ydym yn gofyn amdani. Gan fod y cynnig i gytuno ar Benderfyniad Ariannol fel arfer yn digwydd yn syth ar ôl i'r cynnig Cyfnod 1 gael ei dderbyn, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod darparu ymateb ffurfiol i'n hargymhellion yn golygu bod gofyn i'r Senedd gytuno i ymrwymo adnoddau cyn bod barn y Gweinidog yn hysbys. Rydym o'r farn bod hyn yn annerbyniol ac mae'n tanseilio'r broses graffu.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried goblygiadau ariannol yr holl Filiau sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Senedd hon, ac eithrio'r Bil cydgrynhoi sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau. Yn ein gwaith craffu ar y Bil cyntaf a gyflwynwyd, y *Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)*, gwnaethom nodi ein disgwyliadau ar gyfer y Senedd hon y dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl o gostau a buddion i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Roedd hyn yn adeiladu ar faterion a nodwyd yn Adroddiad Gwaddol Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd sy'n nodi disgwyliadau pellach o ran cyflwyno gwybodaeth ariannol y dylai pob Bil gadw ati.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ddiweddar, cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion ar *Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru).* Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog wedi "cytuno mewn egwyddor" mewn llawer o achosion i ddarparu'r wybodaeth ariannol bellach y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, mae'r rhaglith yn awgrymu bod swyddogion y Gweinidog yn asesu dichonoldeb diweddaru'r gost wreiddiol ac, os ydyn nhw'n gallu, "bydd unrhyw waith yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau". Hyd yn oed os bydd y costau'n cael eu diweddaru, mae'n debygol y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith ddeddfwriaethol drwy'r Senedd erbyn i'r wybodaeth fod ar gael.

Yn syml, nid yw hyn yn ddigon da. Nid yw'n ddefnyddiol cael y wybodaeth hon ar ôl i'r Senedd eisoes gytuno ar y Penderfyniad Ariannol. Mae hefyd yn tanseilio ymdrechion y Pwyllgor sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r risg yn sylweddol y bydd y Senedd yn pasio deddfau gwael, gyda chanlyniadau ariannol ansicr a allai roi pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes dan bwysau.

Gofynnwn felly i Weinidogion ddychwelyd at yr arfer blaenorol a darparu ymateb ysgrifenedig i argymhellion y Pwyllgor Cyllid cyn dadl Cyfnod 1 ac ystyried Penderfyniad Ariannol fel mater o egwyddor. Bydd hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas ag ymrwymo adnoddau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddosbarthu'r llythyr hwn i'ch cydweithwyr yn y cabinet. Rwyf hefyd yn anfon copi at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y pwyllgorau polisi.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.
Llywodraeth Cymru

11 Gorffennaf 2022

Annwyl Lynne

Iechyd meddwl a llesiant: Argymhellion y Pwyllgor

Yn ystod y Bumed Senedd, gwnaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg waith eang a sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru. Rydym yn bwriadu, drwy waith ein pwyllgorau yn y Chweched Senedd, adeiladu ar waith ein rhagflaenwyr ar y materion pwysig hyn.

Gan fod cylchoedd gwaith ein Pwyllgorau yn gorgyffwrdd o ran iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, rydym yn ysgrifennu ar y cyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion ein rhagflaenwyr.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir yn yr atodiad erbyn 1 Medi 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad: Cais am Wybodaeth

Er mwyn llywio gwaith ein Pwyllgorau ar iechyd meddwl a llesiant, ar gyfer pob un o'r adroddiadau a restrir isod, byddem yn croesawu:

1. Arwydd o ba argymhellion y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried sy'n dal heb eu gweithredu a ble y mae angen rhagor o weithredu, ac a oes unrhyw rwystrau i roi'r rhain ar waith, ac os felly, beth yw'r rhwystrau hynny.

2. Sut mae gwaith Llywodraeth Cymru i roi'r argymhellion ar waith yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael eich ymateb erbyn 1 Medi 2022.

Adroddiadau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Parhaodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd i ganolbwyntio'n benderfynol ar iechyd meddwl. Yn ogystal ag edrych ar faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl drwy gydol ei waith craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, ei waith craffu cyffredinol ar Weinidogion iechyd a gofal cymdeithasol, a'i waith arall ar ymchwiliadau, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliadau ar y canlynol:

- Unigrwydd ac unigedd (Rhagfyr 2017)
  Gwnaeth yr adroddiad chwech argymhelliad, gan gynnwys: yr amserlenni ar gyfer datblygu strategaeth unigrwydd ac unigedd; dull trawsadrannol (yn enwedig mewn perthynas â dementia a gofalwyr); asesu effaith unigrwydd ac unigedd ar iechyd meddwl a'r effaith ddilynol ar wasanaethau cyhoeddus; gweithio gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau sefydlogrwydd cyllid; gwerthuso effaith cysylltiad rhwng cenedlaethau; ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth i newid agweddau a mynd i'r afael â stigma. Yn ei hymateb ym mis Chwefror 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru bedwar o'r argymhellion, a derbyniodd ddau yn rhannol.

- Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal (Mai 2018)
  Gwnaeth yr adroddiad un ar ddeg o argymhellion, gan gynnwys: gwella dulliau casglu a chyhoeddi data; cydymffurfio â chanllawiau NICE; asesiadau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl â dementia; materion yn ymwneud ag adolygiadau meddyginiaeth; mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd; hyfforddiant gofal dementia; ac adolygiad o lefelau a phriodoldeb y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig ar gyfer pobl â dementia mewn gofal eilaidd. Yn ei hymateb ym mis Gorffennaf 2018, derbyniodd Llywodraeth Cymru, neu derbyniodd mewn egwyddor, ddeg o'r argymhellion, a gwrthododd un. Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet ragor o wybodaeth yn ddiweddarach yr un mis.

- Atal hunanladdiad "Busnes Pawb" (Rhagfyr 2018)
  Gwnaed 31 o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys: hyfforddiant atal hunanladdiad a hyrwyddo adnoddau presennol; gwerthuso a chyflwyno mentrau atal hunanladdiad a llwybrau atgyfeirio; cydraddoldeb iechyd meddwl a chorfforol; model brysbennu Cymru gyfan yn lleoli nyrsys seiciatrig cymunedol yn ystafelloedd rheoli'r heddlu; gofal dilynol ar ôl rhyddhau; amseroedd aros ar gyfer therapïau seicolegol; strategaeth a llwybr hunanladdiad ôl-ymyrraeth; ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol o syniadau hunanladdiad, goroeswyr ymdrechion hunanladdiad a phobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad; camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg, gan gynnwys dynion, ffermwyr, myfyrwyr a charcharorion; ystyriaethau ar gyfer awdurdodau cynllunio; adrodd yn y cyfryngau; diogelwch ar-lein; llywodraethu; a chyllid. Roedd yr adroddiad hefyd yn cefnogi argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei ymchwiliad Cadernid Meddwl. Yn ei hymateb ym mis Ionawr 2019 derbyniodd Llywodraeth Cymru 21 o'r argymhellion yn llawn, a derbyniodd wyth arall mewn egwyddor. O'r ddau argymhelliad arall, derbyniwyd rhai elfennau yn llawn, ac eraill mewn egwyddor.

- Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu (Hydref 2019)
  Gwnaed un ar ddeg o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys: cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; gweithio mewn partneriaeth rhwng yr heddlu a gwasanaethau iechyd; ymyrraeth gynnar, argyfwng iechyd meddwl a gofal y tu allan i oriau; casglu a chyhoeddi data; cynllunio gofal a thriniaeth; trawsgludiad; a Grŵp Sicrwydd Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl. Yn ei hymateb ym mis Rhagfyr 2019 derbyniodd Llywodraeth Cymru saith o'r argymhellion yn llawn, tri argymhelliad mewn egwyddor, a gwrthododd un argymhelliad.

- Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant (Rhagfyr 2020)
  Gwnaeth yr adroddiad 15 o argymhellion, gan gynnwys: cynllunio ar gyfer yr effaith iechyd meddwl tymor byr a hirdymor ar y boblogaeth a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; monitro'r effaith ar hunan-niweidio a hunanladdiad; y datgysylltiad rhwng sicrwydd byrddau iechyd a phrofiadau cleifion; y gyfres ddata graidd ar iechyd meddwl; fframwaith gofal profedigaeth; a gwerthuso ar frys y ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl digidol o bell. Roedd yr adroddiad hefyd yn ailadrodd argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Busnes Pawb ac adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Yn ei hymateb ym mis Chwefror 2021 derbyniodd Llywodraeth Cymru ddeuddeg o'r argymhellion yn llawn, a thri argymhelliad mewn egwyddor. Gwnaeth y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar y pryd ysgrifennu at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Bumed Senedd ym mis Mawrth 2021

i roi diweddariad manwl ar gynnydd yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Busnes Pawb.

## Adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mewn Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2017, dywedodd Lynne Neagle AS, cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd, fod aelodau'r Pwyllgor yn "hynod angerddol am ansawdd a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc". Cyflawnodd y Pwyllgor waith yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc a'u teuluoedd drwy gydol y Bumed Senedd, gan gynnwys fel rhan o'r ymchwiliadau a ganlyn:

- Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru (Hydref 2017) a Iechyd meddwl amenedigol – gwaith dilynol
  Roedd yr adroddiad yn gwneud 27 o argymhellion, gan gynnwys bod Llywodraeth Cymru: yn sefydlu rhwydwaith clinigol a reolir dan arweiniad clinigwyr; yn sicrhau bod data cadarn yn cael ei gasglu a'i fonitro i ddeall lefel barhaus yr angen am gymorth iechyd meddwl amenedigol; yn creu Uned Mamau a Babanod yn ne Cymru; a'i bod yn edrych ar opsiynau gyda GIG Lloegr ar gyfer creu canolfan yng ngogledd ddwyrain Cymru. Yn ei hymateb gwrthododd Llywodraeth Cymru bedwar o'r argymhellion, derbyniodd bedwar mewn egwyddor, a derbyniodd 19 o'r argymhellion. Cynhaliodd y Pwyllgor waith dilynol i fonitro gweithrediad yr argymhellion hynny gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2021.

- Cadernid Meddwl (Hydref 2018) a Chadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach (Hydref 2020)
  Gwnaeth Adroddiad dylanwadol y Pwyllgor sef, Cadernid Meddwl 28 o argymhellion. Ei "argymhelliad allweddol" oedd bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lles a gwydnwch emosiynol a lles a gwydnwch meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodedig. Roedd yr argymhellion eraill yn ystyried materion fel cymorth ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion, gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol, gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), atal hunanladdiad, gofal cleifion mewnol, gwasanaethau eiriolaeth a gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd emosiynol. Yn ei hymateb, gwrthododd Llywodraeth Cymru bedwar argymhelliad, a derbyniodd y gweddill yn llawn neu'n rhannol. Rhoddir sylw i gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn yr argymhellion hynny ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol yn adroddiad dilynol y Pwyllgor. Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach..

**Lynne Neagle AS/MS,**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Tachwedd 2022

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref 2022 yn egluro barn y Pwyllgor o ran y cais am ddiweddariad ynglŷn â Cadernid Meddwl.

Ers cyhoeddi adroddiad Cadernid Meddwl yn 2018, a'r adroddiad dilynol yn 2020, cyflawnwyd llwyth enfawr o waith i wella'r cymorth sydd ar gael i gynnal llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Mae argymhellion Cadernid Meddwl wedi bod yn sail hanfodol wrth lunio polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft drwy ein Dull Ysgol Gyfan Cyd-weinidogol, a bellach ein Dull System Gyfan Cyd-weinidogol, a hefyd wrth ddatblygu a gweithredu ein fframwaith NYTH/NEST. Yn fwyaf nodedig, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi canllawiau statudol ar y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol ym mis Mawrth 2021. Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i weithredu ac ymwreiddio'r Fframwaith, sy'n cael ei gefnogi drwy weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru ac yn benodol y Maes Dysgu a Phrofiad, Iechyd a Llesiant. Rydym hefyd wedi sicrhau bod dros £43m ar gael gan y gyllideb iechyd a'r gyllideb addysg ar y cyd yn ystod y cyfnod cyllidebol tair blynedd, er mwyn gwella llesiant mewn ysgolion a helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â chwnsela yn yr ysgol a datblygu gwasanaethau mewngymorth CAMHS i ysgolion.
- Darparwyd dros £10m ers 2020 i gefnogi iechyd meddwl a llesiant staff a dysgwyr mewn addysg bellach. Mae prosiectau sefydliadol yn cefnogi'r gwaith o benodi a hyfforddi staff; ac mae prosiectau cydweithredol yn tynnu colegau ynghyd i ddatblygu strategaethau newydd a rhannu adnoddau; ac mae prosiectau cenedlaethol yn helpu colegau i ddatblygu adnoddau a mentrau mewn meysydd megis camddefnyddio sylweddau a gweithgareddau lles, yn ogystal â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae pob un o'n prifysgolion yn gweithredu strategaethau llesiant ac iechyd. Mae CCAUC yn monitro'r gwaith o weithredu'r strategaethau er mwyn sicrhau bod yr uchelgais yn briodol a bod ymateb effeithiol i anghenion staff a myfyrwyr addysg uwch. Mae CCAUC hefyd wedi ymwreiddio fframweithiau *Universities UK: Stepchange,* ar gyfer sicrhau iechyd meddal da mewn prifysgolion a helpu i ddiogelu pobl rhag hunanladdiad o fewn eu gwaith polisi. Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid iechyd a llesiant, mae CCAUC yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch ymuno â fframweithiau *#stepchange* a *Suicide Safer Universities UUK* ac i sicrhau bod eu cynlluniau gwariant yn gydnaws â'r dulliau gweithredu a amlinellir.
- Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cymorth haen 0/1 i ddarparu mynediad hawdd i amrywiaeth o gymorth i blant a phobl ifanc – gan gynnwys llinell gymorth iechyd meddwl CALL, pecyn cymorth ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc, a llinell gymorth anhwylderau bwyta BEAT.
- Rydym hefyd wedi buddsoddi i sefydlu cynnig ar gyfer Cymru gyfan, lle gall pobl ifanc a'u teuluoedd gael cymorth iechyd meddwl ar-lein am ddim, heb fod angen iddynt gael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu. Bellach mae gan y therapi ar-lein hwn gyfres o raglenni cymorth sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gall rhieni a gofalwyr ymuno â rhaglen therapi 12 wythnos ar-lein am ddim i helpu plant a phobl ifanc 4-18 oed sy'n dioddef gorbryder ar lefel ysgafn neu ganolig. Gall pobl ifanc yn eu harddegau, sef 16-18 oed, ymuno ar eu pennau eu hunain heb orfod cael cydsyniad gan oedolyn, i gael cymorth i ymdrin â gorbryder neu hwyliau isel yn uniongyrchol drwy eu ffôn symudol, llechen neu liniadur.
- Rydym hefyd yn buddsoddi mewn gofal argyfwng drwy weithredu dewis gwasgu 2 ar gyfer iechyd meddwl brys fel rhan o'r gwasanaeth 111. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw'r cyntaf i sefydlu'r ddarpariaeth hon fel gwasanaeth 24/7, ac mae pob bwrdd iechyd yn gweithio tuag at ei sefydlu yn yr un modd. Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, rydym wedi cytuno ar bedwar cynllun peilot yn ddiweddar i dreialu dewisiadau amgen heblaw am dderbyniad i bobl ifanc sydd mewn argyfwng.
- Mae pob bwrdd iechyd wedi llwyddo i wella gwasanaethau anhwylderau bwyta ac maent yn gweithio tuag at ymyrryd yn gynt a gweithredu amser aros o 4 wythnos ar gyfer asesiadau. Rydym hefyd wedi comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu uned arbenigol ar gyfer anhwylderau bwyta yma yng Nghymru.
- Rydym wedi datblygu'r Fframwaith NYTH/NEST fel adnodd cynllunio i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i weithredu Dull System Gyfan yn eu hardaloedd. Rydym wedi penodi rhywun i arwain ar weithredu NYTH/NEST, gan weithio ar draws y Llywodraeth, ac ar y cyd â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod NYTH/NEST yn cael ei ymwreiddio'n drylwyr ym mholisïau a gwasanaethau plant a phobl ifanc.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod y strategaeth 10 mlynedd bresennol, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn dod i ben eleni a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r strategaeth olynol. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn adolygu'r hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni wrth weithredu ac ymwreiddio argymhellion Cadernid Meddwl y Pwyllgor, gan nodi'r gwaith arall y bydd angen ei wneud i lunio strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl genedlaethol newydd. Byddwn yn defnyddio dull gweithredu thematig ar gyfer hyn, a byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar hynt y gwaith yn y flwyddyn newydd.

Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a finnau ar 23 Tachwedd, pan fyddaf yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion Cadernid Meddwl. Byddaf hefyd yn hapus iawn i fynychu sesiwn graffu ar wahân gyda'r Pwyllgor ar Gadernid Meddwl os bydd yn well gan y Pwyllgor wneud hynny.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Eitem 3.6

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

26 Medi 2022

Annwyl Eluned

Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd: Hepatitis C: Cynnydd tuag at ei ddileu yng Nghymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Awst 2022, yn rhoi diweddariad ar yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ar gynnydd tuag at ddileu Hepatitis C.

Nodaf o'ch ymateb mai eich bwriad yw nodi eich disgwyliadau gan gynnwys camau â blaenoriaeth a thargedau i'r GIG a'r Byrddau Cynllunio Ardal mewn cyfathrebiadau yr hydref hwn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld y cyfathrebiadau hyn, ynghyd ag eglurhad o'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r datganiad ansawdd ar gyfer clefyd yr afu.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 21 Tachwedd 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

21 Tachwedd 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Medi 2022 ynglŷn a'r cynnydd a wnaed tuag at gael gwared ar hepatitis C yng Nghymru.

Ers imi ysgrifennu atoch ddiwethaf, rwyf wedi sefydlu grŵp goruchwylio o dan arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r ffocws ar weithredu pendant i gael gwared ar hepatitis B a C yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn eu plith cynrychiolwyr o fyrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydliadau'r trydydd sector.

Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 15 Tachwedd pan rannodd fy swyddogion y disgwyliadau a'r targedau a oedd wedi eu llunio ar gyfer y GIG a'r Byrddau Cynllunio Ardal. Ar ôl adolygu'r adborth a ddarparwyd gan y grŵp goruchwylio, byddaf yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru fydd yn cael ei rannu â'r pwyllgor, ochr yn ochr â datganiad ysgrifenedig, pan fydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu ar draws y system.

Gallaf roi gwybod i'r pwyllgor y bydd y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu/Iau yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, ac y caiff hwnnw hefyd ei rannu â chi.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai fy niolch yn cael ei anfon ymlaen at aelodau'r Pwyllgor, am eu diddordeb parhaus yn y mater pwysig hwn.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu i roi hysbysiad cynnar ichi am Offeryn Statudol (OS) diwygio o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar (14 Rhagfyr 2022) i ddod i rym ar 18 Ionawr 2023, ac eithrio'r diwygiad i ddiweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd, a ddaw i rym ar 11 Gorffennaf 2024 i ganiatáu cyfnod pontio 18 mis.

Bydd yr OS arfaethedig yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol i wneud newidiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) fel y'u diwygiwyd,

- Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/52/EEC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 96/8/EC, 1999/21/EC, 2006/125/EC a 2006/141/EC, Cyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 ac (EC) Rhif 953/2009[1],

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc,a

[1] Rheoliad yr UE a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a 2020

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwyd at ddibenion meddygol arbennig.

Bydd y diwygiadau hyn yn:

- diweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer sinc mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru'r ffurfiau o niasin a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys nicotinamid ribosid clorid
- diweddaru'r ffurfiau o fagnesiwm a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys magnesiwm citrad malad
- diweddaru'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- diweddaru'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc.

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS i'r DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn y sefyllfa hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

UK Statistics Authority

Sir Robert Chote, Chair

Fry Building, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF
statisticsauthority.gov.uk

Russell George MS
Chair, Health and Social Care Committee
Welsh Parliament
Cardiff
CF99 1SN
*(via email)*

22 November 2022

Dear Mr George,

I am pleased to write to you commending two recent Office for Statistics Regulation reports. The *2022 update: lessons learned for health and social care statistics from the COVID-19 pandemic*[1] was published on 1 November and is an insightful analysis of the last year of the pandemic. The *Annual Review of Casework for 2021/22*[2] was published on 20 October which highlighted that the trends in casework remain higher than pre-pandemic levels.

*Lessons learned*

In its 2021 report[3], the Office for Statistics Regulation (OSR) highlighted the vital role that data and statistics played during the pandemic in supporting individuals to reach informed decisions. It has been possible to meet the increased analytical demands of the pandemic thanks to the extraordinary, dedicated efforts of statisticians and analysts across governments.

In its 2022 update, much like the UK's health and care services, OSR has found a statistical system which is transitioning from pandemic crisis mode to living with COVID-19. While the intense analytical demands of the pandemic have eased, a real challenge is maintaining some level of analysis relating to COVID-19 while publishing new statistics to measure emerging issues, such as new disease outbreaks, and re-invigorating 'business as usual' statistics, such as those on NHS performance and the health and social care workforces. In the context of the increased demands on producers, we have identified four key areas which support the production of statistics which serve the public good:

- Horizon scanning – understanding what information people need
- Availability – ensuring data and statistics are made available in an accessible and transparent way
- Collaboration – sharing data, plugging gaps and improving coherence and comparability

[1] https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/lessons-learned-for-health-and-social-care-statistics-from-the-covid-19-pandemic-2022-update/
[2] https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/annual-review-of-uk-statistics-authority-casework-2021-22/pages/1/
[3] https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/improving-health-and-social-care-statistics-lessons-learned-from-the-covid-19-pandemic/pages/1/

- Communication – continuing to innovate and communicate statistics in a clear and engaging way to a wide range of users

We have seen many improvements to health and social care statistics over the last year. We have found a better understanding of the need for transparency of numbers used publicly by governments and are encouraged by new statistics published on topics of high public interest and ongoing efforts to fill existing data gaps. However, there is still progress to be made against several recommendations in our 2021 report, such as improving, where possible, the comparability of statistics across the UK and overcoming barriers to data sharing.

There are developments relating to health and social care data in Wales which we consider will support producers in their ability to provide timely information and analysis to support future decision-making. The ongoing transformation of health and social care using digital and data services[4] presents several opportunities to improve the development and effectiveness of statistics, including the development of the National Data Resource[5] and a strategic approach to social care data[6]. I look forward to the successful implementation of these strategies, and trust that sufficient resource will be made available to turn new operational data into published statistics.

*Annual Review of Casework*

As the UK Statistics Authority's regulatory arm, OSR investigates all cases reported to the Authority by members of the public, politicians, the media and third sector organisations, as well as issues identified through internal processes, to stand up for statistics that serve the public good.

The increased public interest in data experienced during the pandemic has been maintained, with over half (52%) of all casework relating to the COVID-19 pandemic. Other topics raised included population, crime and labour market. The largest proportion of cases in 2021/22 related to use/misuse of statistics (41% of all cases). These cases often related to concerns about statistics being used (most commonly by a public figure or a public body) in a way which someone considered to be potentially misleading. Most casework came from the public, with none being raised by members of the Welsh Parliament.

Please do let me know if you have any questions about either of the aforementioned reports, or anything else regarding the work of the Authority.

Yours sincerely,



**Sir Robert Chote**
**Chair**

---

[4] https://gov.wales/written-statement-transforming-health-and-social-care-using-digital-and-data-services
[5] https://ndr.cymru/
[6] https://socialcare.wales/research-and-data/strategic-approach-data/approach-to-data

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith
Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Delyth Jewell AS

Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig
Paul Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
John Griffiths AS

23 Tachwedd 2022

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

Annwyl gyfeillion,

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sut y bydd yn mynd ati i graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn ddiweddar.

Rydym wedi ymrwymo yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd i geisio cyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd mewn meysydd o ddiddordeb a rennir a lle y bydd hyn yn gwella'r gwaith craffu. Gan hynny, rydym wedi gofyn i swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i rannu â phwyllgorau eraill y Senedd wybodaeth briffio ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig


Senedd Cymru
Welsh Parliament

berthnasol a gawn er mwyn cefnogi gwaith craffu cyfannol, cydgysylltiedig ar y Gyllideb Ddrafft ar draws y Senedd.

Rydym hefyd wedi gofyn i swyddogion fod yn effro i'r posibilrwydd y bydd ein barn ni yn debyg i eiddo pwyllgor arall o ran materion sy'n pontio cylchoedd gwaith pwyllgorau, a hynny gyda'r bwriad o gynnig argymhellion ar y cyd lle bo'n briodol. Wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, gwnaethom ni a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig argymhelliad ar y cyd yn ymwneud â thryloywder un ffrwd gyllido benodol - sef mater pwysig o egwyddor i'r ddau bwyllgor. Credaf fod yr argymhelliad ar y cyd yn ychwanegu pwysau at ein safbwyntiau cyffredin.


Byddwn yn dra diolchgar am eich cefnogaeth chithau ar y materion uchod.

Gwnaethom hefyd gytuno y bydd ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn ystyried y materion trawsbynciol a ganlyn:

- 'llinell sylfaen ddiwygiedig' Llywodraeth Cymru, fel y'i gelwir: pa mor glir a chywir ydyw o ran cyflwyno newidiadau mewn gwariant o un flwyddyn i'r llall.
- sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl, ac i ba raddau y mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried yn Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd i ni fod yr SIIA yn nodi'r dystiolaeth gyd-destunol sy'n cefnogi ei phenderfyniadau gwariant. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod yr SIIA a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 wedi dangos yn glir ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Credwn y dylai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chrynswth gael ei gynnal a'i gyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Gall y materion hyn, neu faterion tebyg iawn, fod yn berthnasol i ystyriaeth eich Pwyllgor o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Os felly, byddwn yn croesawu unrhyw gyfleoedd ar gyfer craffu cydgysylltiedig. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd o'r fath, yn dibynnu ar eich barn chi a barn aelodau eraill eich pwyllgorau.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon